**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 26 Medi 2023**
**yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Tudur Lewis (Cadeirydd), Russell Davies, Anthony Jenner, Anthony Eynon, Julian Williams, Ffion John, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Dennis Jones, Rebecca Jaimangl-Jones, Michael Fussell

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** AE ar gyfer adran 5

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 25/07/2023:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 25ain Gorffennaf 2023 yn gywir gan AJ ac eiliwyd gan JW.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- Adroddiad/Cynllun gweithredu Bioamrywiaeth: i'w wneud erbyn y cyfarfod nesaf
  **Cam gweithredu: JM i ddrafftio adroddiad/cynllun gweithredu Adran 6 Bioamrywiaeth erbyn y cyfarfod nesa.**
- Diweddariad ar y wefan: https://www.cilymaenllwydcc.org.uk/cy/gartref/
  - Mae'r wefan nawr yn barod ac mae JM wedi anfon y ddolen at bawb i fwrw golwg drosti.
  - Mae Jamie King wedi cyflwyno anfoneb o'r balans, sef £300. Talwyd £410 fel blaendal, felly cyfanswm o £710 am ddatblygu'r wefan.
  - Cytunwyd i dderbyn cynnig Jamie King o dreialu'r cynllun rheoli gwefan am 3 mis (o 1af Hydref – 31 Rhagfyr) a hynny am ddim. Mae hyn yn golygu y bydd JK yn lanlwytho dogfennau i'r wefan ac yn diweddaru unrhyw wybodaeth. Cytunwyd hefyd i barhau â'r cynllun rheoli 3 mis o Ionawr tan Mawrth am gost o £150. Yn ystod y cyfnod hwn bydd JM yn monitro faint o waith sydd wrth ddiweddaru'r wefan cyn penderfynu ymhellach.
  - Trafodwyd sut i lansio'r wefan newydd:

  **Cam gweithredu: JM i roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin fel bod cyfeiriad ein gwefan ar eu gwefan nhw; rhoi poster lansio a dolen i'r wefan ar ein tudalen Facebook ac arddangos posteri yn Siop Glandy, Ysgol Beca, Canolfan Ffynnonwen a hysbyseb yn y Cardi Bach**
- Is-grŵp Prosiect Grant Y Llwybrau Troed: mae is-grŵp wedi cael ffurfio ac wedi cwrdd ddwywaith (gweler adran 4 am ddiweddariad llawn)
- Canllawiau hyfforddi gwirfoddolwyr: mae'r Cyng DP wedi anfon y linc at y ddogfen ond methwyd ei hagor
  **Cam gweithredu: JM i ofyn i Jason Lawday am gopi o ganllawiau hyfforddi gwirfoddolwyr**
- Rheolau Sefydlog Diwygiedig: anfonodd JM gopi o'r Rheolau Sefydlog newydd a gafodd eu llunio gan Un Llais Cymru at bawb i'w darllen. Cytunwyd mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog hyn. Bydd y rhain yn cael eu llwytho ar y wefan nawr.
- Cydnabyddiaeth Ariannol: cadarnhawyd bod bob Cynghorydd wedi derbyn y lwfans ariannol oedd ar y cyngor yn 2022/23 ac roedd JM wedi anfon datganiad blynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol unol â'r gofynion. Bydd rhaid rhoi'r datganiad ariannol hwn ar y wefan hefyd. Bydd cydnaboddiaeth ariannol ar gyfer 23/24 yn cael ei drafod a'i gytuno ym mis Ionawr fel bod y taliadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr un flwyddyn ariannol.

- Cofeb Terfysgoedd Beca – mae RD wedi siarad â James Morris ynghylch darn bach o dir i gerbydau sy'n ymweld dynnu i mewn gyferbyn â safle'r gofeb ond heb gael ateb hyd yn hyn.
- Cynllunio:
  - Cais Cynllunio Llwynceirios (PL/06080): cyflwynwyd ymateb yn mynegi pryder bod y broses gynllunio ddim wedi cael ei dilyn yn gywir. Dywedodd y Cyng DP nad oedd y cais gwreiddiol wedi cael ei droi llawr yn y lle cyntaf.
  - Adran 106:
  - **Cam gweithredu: JM i anfon llythyr cyffredinol i'r Adran Biwro yn ymholi ynghylch faint o arian A106 sydd ar gael ar gyfer Cilymaenllwyd a beth yw'r broses o gael ad-daliad 106 ar gyfer gwelliant cymunedol. Gallai S106 fynd tuag at Gronfa Cerflun Twm Carnabwth**
- Terfynau cyflymder 20 a 30 mya: anfonwyd ymateb i gynigion y Cyngor Sir erbyn 28 Gorffennaf. Mae'r terfynau cyflymder mewn grym ers 17 Medi. Mae'r arwydd 20 mya ar bwys Pantycaws ac ar dop Llanglydwen wedi cael eu difwyno ag inc du. Dydy'r arwydd mya ddim wedi cael ei osod ar bwys yr ysgol eto na'r rhai yn Ffynnonwen. Mae arwydd 30 mya ar bwys yr orsaf betrol.
- Baw cŵn: dywedodd y Cyng DP ei fod yn bwysig riportio unrhyw broblemau i'r Cyngor Sir
- Tipio anghyfreithlon:
  **Cam gweithredu: Cyng DP i ofyn i'r Cyngor Sir am arwydd tipio anghyfreithlon ar gyfer maes parcio Ynys Fach**
- Atgyweirio'r ffyrdd: mae'r Cyng DP wedi dilyn lan am gyflwr y ffyrdd yn ardal Efailwen. Byddan nhw'n cael eu gwneud cyn bo hir.

**4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed**

- Rhoddodd JM ddiweddariad ar y prosiect grant:

- Derbyniwyd y contract grant Cymunedau Cynlaiadwy a chafodd ei arwydd gan TL fel y Cadeirydd presennol a JM fel y Clerc a'i anfon nôl erbyn y dyddiad gofynnol
- Mae is-grŵp wedi cael ei ffurfio ac wedi cwrdd ddwy waith. Roedd y cyfarfod cyntaf ar 14 Awst a'r ail gyfarfod 11 Medi – arlein. Mae'r cyfarfod nesaf ar 16 Hydref.
- Mae aelodaeth yr is-grŵp yn cynnwys: Y Cyng DP, AJ, RJJ, JM, Julie Sweet, Jason Lawday a chynrychiolydd o Ramblers Cymru yn ymuno yn y cyfarfod nesaf ar 16 Hydref.
- Cedwir cofnodion ac maen nhw wedi cael eu hanfon at bawb.
- Mae Cylch Gorchwyl wedi cael eu drafftio ac wedi eu hanfon at bawb i'w cytuno. Cytunwyd y rhain gan bawb.
- Mae'r cyfarfodydd yn mynd yn dda a chytunwyd mai Jason Lawday fydd trafod ac yn cytuno gyda'r perchnogion tir ynghylch unrhyw waith dargyfeirio fydd angen gwneud. Mae Jason Lawday hefyd yn cydweithio'n dda gyda'r contractwr, Julian Summers ac mae Julian wedi gwneud dechreuad da iawn.
- Cafodd llythyron eu hanfon at bob perchennog tir o fewn ardal y prosiect, yn gofyn iddyn nhw gysylltu os oes gyda nhw unrhyw bryderon neu wrthwynebiad - Hartts Longford; Marchgwyn Isaf, Marchgwyn Uchaf, Manorgwyn, Pantoyrodyn, Pumsaint Cottage, Rhydymerydd a Llandre Uchaf. Mae un perchennog tir wedi ffonio, un wedi anfon neges destun a dau wedi datgan eu bod yn fodlon i'r prosiect fynd yn ei flaen; nid yw'r lleill wedi cysylltu â JM. Er ein bod wedi ysgrifennu at bob perchennog tir, mae angen i ni ofyn am ganiatâd ysgrifenedig ganddynt.
- Mae'r gwaith canlynol wedi cael ei wneud hyd yn hyn: dechreuodd y contractiwr ar y gwaith o glirio llwybrau troed ar 21.8.23 - 4/16/3 – lawr yn y de, uwchben Llwybr y Landsker. Roedd pellter o tua 450 metr wedi ei glirio hyd at 30.8.23 ar lwybr troed 4/16/3. Mae'r gwaith clirio ar lwybr troed 4/15/1 wedi ei wneud hefyd. Mae Julie

Sweet wedi tynnu llawer o luniau, cyn ac ar ôl y clirio ac ambell fideo sy'n dystiolaeth dda i gydfynd â'r adroddiad cynnydd y mae hefyd wedi darparu.
- Cafodd JM gyfarfod gyda Jayne Pritchard, Cydlynydd y Prosiect, wythnos diwetha. Trafodwyd y posibilrwydd o gael cytundeb taliad ymlaen llaw, fodd bynnag, y drefn fydd cyflwyno hawliad bob mis ar yr hyn a wariwyd ynghyd ag adroddiad ar gynnydd. Os bydd popeth yn ei le, dylwn ni dderbyn ad-daliad rhwng 7 ac 20 diwrnod ar ôl cyflwyno bob hawliad.
- Mae'r contractiwr wedi cyflwyno'i anfoneb cyntaf am glirio llwybr cyhoeddus 4/16/3 - £4,800 a llwybr cyhoeddus 4/14/2 - £960; cyfanswm o £5,760. Cytunodd pawb i dalu'r contractiwr am y swm hwn.
- Bydd angen cyflwyno'r hawliad cyntaf cyn diwedd yr wythnos hon.
- Brandio – wrth anfon unrhyw ohebiaeth neu gyhoeddusrwydd allan yn ymwneud â'r prosiect hwn, rhaid cydnabod y grant a defnyddio'r logo a'r geiriad cywir. Mae JM wedi derbyn gwybodaeth fanwl am y brandio.
- Mae Julie Sweet yn gwneud teithiau o amgylch llwybrau cyhoeddus yn ardal Login os oes diddordeb gydag unrhyw un i fynd arnyn nhw. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o ymgysylltu â'r gymuned sy'n un o ofynion y grant.
- Mae Heidi Lester, Swyddog Ariannu Cyngor Sir Gâr wedi gofyn am logo a gwefan Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd. Mae'r wefan nawr yn barod felly bydd JM yn anfon manylion y wefan ati HL cyn gynted. Cytunwyd gofyn i Ysgol Beca i weld a oes diddordeb gyda'r plant i gynllunio logo a chael rhyw fath o gystadleuaeth – yn aros am ymateb.
- Bydd JM yn ysgrifennu diweddariad ar y prosiect adfer llwybrau cyhoeddus i'w roi ar y wefan, i gynnwys lluniau hefyd.

▪ Pwyntiau eraill a godwyd wrth drafod y prosiect grant:
- Adroddwyd bod y perchennog tir CH wedi mynegi consyrn ynglyn â'r llwybr o Benrallt i Bantyrodyn, bod y llwybr uchelach i fyny na'r hen lwybr.
  **Cam gweithredu: Y Cyng DP i gysylltu â Jason Lawday am gonsyrn CH a gofyn iddo fe a'r contractiwr i siarad â CH**
- Roedd y Cyngor o'r farn bod angen mwy o wybodaeth am y dargyfeiriadau posibl yn gyntaf.
  **Cam gweithredu: JM i sicrhau bod y dargyfeiriadau yn cael eu trafod a'u cadarnhau gyda JL yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp**
- Awgrymwyd y dylai Cynghorwyr wirio'r gwaith clirio bob hyn a hyn gan fod y Cyngor yn gyfrifol am y prosiect grant hwn.

## 5. Gohebiaeth

▪ Diffibrilydd Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen: mae'r diffib wedi'i osod a'i gofrestru. Derbyniwyd e-bost gan Ysgrifennydd y Ganolfan yn gofyn am gyfraniad at gost o osod y cabinet gwresogi a oedd yn £524.40 a £109 i'r trydanwr am ei osod, cyfanswm o £633.40. Gwnaed datganiad o ddiddordeb gan AE felly ni chymerodd ran yn y trafodaethau. Cynigiodd AJ bod y Cyngor yn gwneud cyfraniad llawn gan ei bod yn ganolfan gymdeithasol i'r gymuned ac eiliwyd hyn gan RD.

## 6. Diweddariad Cyllid ac Arwyddo Sieciau

▪ Cadarnhaodd JM bod Archwilio Cymru yn gwneud archwiliad llawn o'n cyfrifon eleni ac roedd rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau erbyn 7fed Awst. Gwnaed hynny erbyn y dyddiad hwn drwy lanlwytho'r dogfennau ar portal diogel a derbyniwyd cadarnhad bod hynny wedi gweithio.
▪ Adroddiad cyllid:
- Mantolen diwedd mis Gorffennaf: £9,795.45

- Yn ystod diwedd Gorffennaf, mis Awst a mis Medi gwnaed taliadau yn dod i gyfanswm o £2,528.53: taliadau Cydnabyddiaeth Ariannol (£854), Canolfan Ffynnonwen (£700), Cronfa Cerflun Twm Carnabwth (£500), Archwilydd Mewnol (£72), clipiau'r arwydd Meini Gŵyr (£27.83) a chyflog y Clerc am y 3 mis cyntaf (£349.70) – yn gadael £7,266.92. Derbyniwyd yr ail bresept ddiwedd Awst o £2,666.67, yn gadael cyfanswm o £9,933.59

- Sieciau i'w harwyddo:
- Contractiwr Julian Summers: £5,760
- Llogi ystafell Caffi Beca: £25
- Un Llais Cymru ar gyfer hyfforddiant: £76.00
- Anfoneb Jamie King ar gyfer y wefan: £300
- Cyflog y Clerc am yr ail chwarter (Gorff - Medi): £349.70
- Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen: £633.40
- Cyfanswm = £7,144.10, yn gadael £2,789.49. Hawlir £5,760 nôl o'r grant, a fydd yn gadael: £8,549.49

- Gofynnodd JM a fyddai'r Cynghorwyr yn cytuno rhoi eu caniatâd drwy e-bost ar gyfer talu anfonebau'r contractiwr gan fod y cyfarfodydd yn digwydd unwaith bob dau fis. Cytunwyd ar y trefniant hwn.

**7. Cynllunio**

- Nodwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:
- PL/06032 - Estyniad/linc i flaen adeiladu - Brynawel, Hebron, Hendygwyn, SA34 0XU. (Ymgynghori: 05/09/23 - 26/09/23)
- Cais cynllunio yn ymwneud â chware Garnwen

**8. Cynllun Hyfforddi**

- Cadarnhawyd bod y canlynol wedi mynychu hyfforddiant Un Llais Cymru yn ddiweddar:
- JM wedi mynychu Iechyd a Diogelwch ym mis Awst
- RJJ wedi mynychu hyfforddiant Ymgysylltu Cymunedol ym mis Awst
- Anfonwyd dyddiadau hyfforddiant mis Medi a Hydref at bawb
- Trafodwyd y ffurflen Cynllun Dysgu a Datblygu a chytunwyd y ffordd orau ymlaen fyddai llunio cynllun hyfforddiant gan osod targed bod 50% o'r Cynghorwyr yn ymuno â sesiwn hyfforddiant eleni a'r 50% arall y flwyddyn nesa
  **Cam gweithredu: JM i lunio cynllun hyfforddiant yn cynnwys targedau ac amserlen, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf**

**9. Diweddariad y Cynghorydd Sir**

- Torri cloddiau – mae nifer wedi cwyno am safon y gwaith torri ben cloddiau; yn wael iawn mewn mannau a llawer heb gael ei wneud
- Y Cardi Bach – mae arolwg peirianyddol wedi cael ei gynnal yn ddiweddar o Lanfyrnach i Grymych
- Adroddwyd am lawer o sbwriel o amgylch tŷ sydd ar werth yng Nglandy Cross drwy ocsiwn
  **Cam gweithredu: Pawb i gadw llygad ar y sefyllfa a rhoi gwybod i'r Cyng DP**
- Bandeang – mae Voneus wedi gosod bocsys mewn yn barod ond dim datblygiad pellach ers hynny

**10. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Cafodd y Polisi Iechyd a Diogelwch ei gymeradwyo.

- Bydd angen gwneud asesiad risg o weithgaredd y Cyngor Cymuned cyn adnewyddu'r yswiriant eleni
  **Cam gweithredu: JM i ddrafftio'r ddogfen asesiad risg ar gyfer y cyfarfod nesaf**
- Mae'r rhai sydd wedi bod ar y teithiau tywys gyda Julie Sweet wedi mynegi pa mor hyfryd yw'r llwybrau troed yn ardal Login
- Trafodwyd cael cinio Nadolig a gwahodd VW i ddiolch iddo am ei waith fel Cynghorydd dros sawl degawd
  **Cam gweithredu: JM i drefnu cinio Nadolig yng Nghaffi Beca**

**11. Unrhyw Fater Arall**

- Bydd rhan o'r ffordd ym Mhantycaws yn cau dros dro wrth i Dŵr Cymru atgyweirio pibell, o ddydd Iau 28 Medi 2023 am 3 diwrnod.
- Dywedodd AJ bydd hen gofnodion y Cyngor Cymuned sydd wedi'u canfod yn atig yr hen dŷ yn Rhosnewydd yn cael eu trosglwyddo i ni pan fydd hi'n ddiogel i fynd atyn nhw
- Dywedodd JM bod y polisïau a gafodd eu llunio yn gynharach yn y flwyddyn h.y. Polisi'r Gymraeg, Yr Amgylchedd, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a hefyd Iechyd a Diogelwch, yn cael eu rhoi ar y wefan yn yr wythnosau nesa. Mae mwy o bolisïau angen eu drafftio e.e. Diogelu Data

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

- Nos Fawrth 28 Tachwedd 2023 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.30pm*

Arwyddwyd RA Jenner

Cadeirydd: RA JENNER ..................................... Dyddiad: 20-NOV-2023

STAND IN